# Llwyfannau rhannu fideos: pwy sydd angen hysbysu Ofcom?

Datganiad: Trosolwg Cymraeg

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mawrth 2021

# Trosolwg

**Gofynion hysbysu – yn gryno**

- Daeth rheoliadau newydd sy'n berthnasol i wasanaethau llwyfan rhannu fideos (VSP) a sefydlir yn y DU i rym ar 1 Tachwedd 2020. O 6 Ebrill 2021, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar ddarparwyr VSP o fewn awdurdodaeth y DU i gyflwyno hysbysiad ffurfiol o'u gwasanaeth i Ofcom.
- Mae'n rhaid i ddarparwyr asesu eu hunain a yw eu gwasanaeth yn bodloni'r meini prawf statudol sy'n golygu felly y dylid ei hysbysu i Ofcom. Bwriedir i'r ddogfen arweiniad, Llwyfannau rhannu fideos: pwy sydd angen hysbysu Ofcom?, helpu darparwyr i ddeall a ydynt yn dod o dan gwmpas y diffiniad o VSP at ddibenion Deddf Cyfathrebu 2003.
- Os yw'n ymddangos i Ofcom fod gwasanaeth yn bodloni'r meini prawf statudol ond nad yw wedi hysbysu ni, mae gennym bwerau statudol i ofyn am wybodaeth er mwyn gwneud asesiad, ac i gymryd camau gorfodi os yw darparwr wedi methu â hysbysu. Gall hyn gynnwys sancsiwn ariannol a chyfarwyddo'r darparwr i hysbysu.

Bu i ni ymgynghori ar arweiniad drafft Llwyfannau rhannu fideos: pwy sydd angen hysbysu Ofcom? rhwng 19 Tachwedd 2020 a 14 Ionawr 2021.

Diben ein harweiniad yw helpu darparwyr gwasanaethau i ddeall:

a) a ydynt yn darparu gwasanaeth sy'n destun y fframwaith statudol ar gyfer gwasanaethau VSP o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"); a

b) phryd a sut y gallai fod angen iddynt hysbysu Ofcom am eu gwasanaeth.

Cawsom gyfanswm o 10 ymateb: chwech gan ddarparwyr gwasanaethau, dau gan gymdeithasau masnach a dau gan unigolion. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion yn ofalus wrth gwblhau ein canllawiau ac wedi cyhoeddi'r holl ymatebion nad ydynt yn gyfrinachol ar ein gwefan. Bu hefyd i ni drafod ein canllawiau yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda darparwyr gwasanaethau ac awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol. Lle bo'n briodol, rydym wedi adlewyrchu eu sylwadau yn y datganiad hwn a'n canllawiau terfynol.

Cawsom ymatebion ar amrywiaeth o faterion a godwyd gan y canllawiau, gan gynnwys cysyniadau sy'n benodol i'r meini prawf yn y Ddeddf megis 'swyddogaeth hanfodol', 'rhan ddatgysylltiol' a 'rheolaeth gyffredinol', yn ogystal ag ystyriaethau ehangach megis rhyddid mynegiant a rheoleiddio gwasanaethau newyddion ar-lein. Rydym yn gosod y materion hyn, a'n casgliadau, allan yn ein datganiad.

Rydym wedi cyhoeddi ein harweiniad terfynol ochr yn ochr â'r datganiad. Mae'r newidiadau pennaf i'n harweiniad yn ymwneud â'r pwyntiau a ganlyn:

a) **Rhan ddatgysylltiol –** rydym wedi gwneud newidiadau i'r ddogfen arweiniad derfynol i egluro bod y maen prawf hwn yn ymwneud yn benodol â'r prawf 'prif ddiben' ac y dylid ei ystyried yn erbyn prif ddiben neu swyddogaeth hanfodol y gwasanaeth ehangach.

b) **Swyddogaeth hanfodol –** rydym wedi egluro ein defnydd o ganllawiau swyddogaeth hanfodol y Comisiwn Ewropeaidd a'n hymagwedd lefel uchel at y cysyniad yn ein harweiniad terfynol.

c) **Rheolaeth gyffredinol dros ba fideos sydd ar gael –** rydym wedi ychwanegu enghreifftiau pellach i egluro ein harweiniad yn y maes hwn, wrth ymateb i bwyntiau penodol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

d) **Awdurdodaeth –** rydym wedi dileu cyfeiriadau at y meini prawf sefydlu yn y DU yn ystod y cyfnod pontio, gan ddilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Rhagfyr 2020.

Yn adran 3 o'r datganiad, rydym yn amlinellu'r eglurhad pellach a wnaed wrth ymateb i ddatblygiadau yn y fframwaith cyfreithiol a datblygu ein porth hysbysu dros y we.

Gall darparwyr yrru e-bost i Ofcom yn VSPRegulation@ofcom.org.uk os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am y gofynion hysbysu a chwmpas terfynol. Fodd bynnag, ni allwn ddarparu cyngor cyfreithiol am wasanaethau unigol ac mae'n parhau i fod yn gyfrifoldeb ar bob darparwr i fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol o ran hysbysu.